OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1436 (Cy.127)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*17 Mai 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*19 Mai 2010*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 122(1) ac adran 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) a pharagraff 6B(1)(a) o Atodlen 26 iddi, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 77(2) a (9), adran 150 ac adran 152 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**2**), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 28(1), adran 50(4) ac (8) ac adran 120(2) o Ddeddf Addysg 2005(**3**) a pharagraff 2(1) o Atodlen 6 iddi, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 1 Medi 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 1999

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 1999(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 4, rhodder—

(**1**) 1998 p.31.Diwygiwyd adran 122(1) gan baragraff 33(1) a (3) o Atodlen 2 i Ddeddf Gofal Plant 2006 (p.21), ac yn lle paragraff 6, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, o Atodlen 26 rhoddwyd paragraff 6B gan baragraffau 8 a 12 o Ran II o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 2005 (p.18). Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 138 ac Atodlen 26 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) 2000 p.21. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) 2005 p.18. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**4**) O.S. 1999/1441 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1743 (Cy.182)), a chan Ddeddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/2913 (Cy.210)).

"**4.**—(1) The Chief Inspector must secure that relevant nursery education is inspected under paragraph 6B(1)(a) of Schedule 26 to the Act—

(a) where there has been no previous inspection under that paragraph, within six years of the date on which relevant nursery education was first provided at the premises concerned, and

(b) in all other cases within six years of the date on which the last inspection was completed.

(2) For the purposes of this regulation the date on which the last inspection was completed is the date of the report of the last inspection under paragraph 6B of Schedule 26 to the Act.".

Diwygio Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001

3.—(1) Diwygir Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001(**5**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 2, rhodder—

"**2.**—(1) Rhaid cynnal arolygiadau—

(a) os nad oes arolygiad blaenorol wedi ei gynnal, o fewn chwe blynedd i ddyddiad sefydlu'r sefydliad sy'n darparu addysg a hyfforddiant ac sydd i'w arolygu, a

(b) ym mhob achos arall, o fewn chwe blynedd i'r dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad diwethaf.

(2) At ddiben y rheoliad hwn dyddiad yr adroddiad arolygu diwethaf yw'r dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad diwethaf.".

Diwygio Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006

4.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006(**6**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 6, rhodder—

"**6.**—(1) Rhaid i'r Prif Arolygydd sicrhau bod pob ysgol y mae adran 28 o Ddeddf 2005 yn gymwys iddi yn cael ei harolygu—

(a) yn achos ysgol nad yw wedi ei harolygu'n flaenorol, o fewn chwe blynedd i'r dyddiad y derbyniwyd disgyblion gyntaf i'r ysgol, a

(b) ym mhob achos arall, o fewn chwe blynedd i'r dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad diwethaf.

(2) At ddiben y rheoliad hwn dyddiad yr arolygiad diwethaf o dan adran 28 o Ddeddf 2005 yw'r dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad diwethaf.".

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006

5.—(1) Diwygir Rheoliadau'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006(**7**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 3, rhodder—

(**5**) O.S. 2001/2501 (Cy.204) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/783 (Cy.80)), a Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238 (Cy.243)).

(**6**) O.S. 2006/1714 (Cy.176).

(**7**) O.S. 2006/3103 (Cy.286).